**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd**
**Dydd Mawrth, 29 Medi, 15:00 - 16:00**
**Telegynhadledd**

| | |
|---|---|
| **Yn Bresennol** | |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | |
| Y Cynghorydd Huw Thomas | Arweinydd, Cyngor Dinas Caerdydd |
| **(Cadeirydd)** | Prif Weithredwr, CC |
| Paul Orders | Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC |
| Sarah McGill | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Fiona Kinghorn | Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP CaF) |
| Charles Janczewski **(Is-** | Cyfarwyddwr Cynllunio (BIP Caerdydd a'r Fro) |
| **gadeirydd)** | Prif Uwch-arolygydd Dros Dro, Heddlu De Cymru |
| Abigail Harris | Prif Swyddog Tân, GTADC |
| Wendy Gunney | Pennaeth Uned Gyflenwi Leol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| Huw Jakeway | Comisiynydd Heddlu a Throseddu, De Cymru |
| Hannah Williams | Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddu, Heddlu De Cymru |
| Alun Michael | Pennaeth Gweithrediadau De Cymru Canolog, Cyfoeth Naturiol |
| Mark Brace | Cymru |
| Michael Evans | Prif Swyddog Gweithredol, C3SC |
| Sheila Hendrickson-Brown | Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru |
| Jo Salway | |
| **Ymddiheuriadau:** | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, CNC |
| Gareth O'Shea | Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Len Richards | |
| **Hefyd yn bresennol:** | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Samantha Clements | Rheolwr Gweithredol Diogelwch Cymunedol, Cydlyniant ac |
| Sian Sanders | Ymgysylltu, CC |
| Nathan Swain | Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC |
| Clive Bailey | Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC |
| Anne Wei | Rheolwr Partneriaethau a Chynllunio Strategol, BIP CaF |
| Suzanne Scarlett | Rheolwr Partneriaethau Addysg a Pherfformiad, CC |
| Ruth Lock | Rheolwr Gwasanaethau Llywodraethwyr, CC |

| Rhif. | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| 1 / 2 | **Croeso, Cyflwyniadau a Chofnodion**<br><br>Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod. Eglurodd y Cadeirydd y byddai prif ffocws y cyfarfod yn cael ei roi i drafodaethau COVID-19 ar ôl i'r cyfnod clo lleol ddod i rym ar 27 Medi.<br><br>Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a nododd y Cadeirydd fod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau. | |
| 3. | **Trefniadau a goblygiadau cyfnod clo COVID-19**<br><br>Rhoddodd Fiona Kinghorn drosolwg o'r ffigyrau diweddaraf ar gyfer Covid-19 yng Nghaerdydd, sy'n parhau i godi. Nodwyd y bu newid ym mhroffil oedran y rhai a heintiwyd, gyda chynnydd sylweddol mewn achosion o ddemograffig iau.<br><br>Esboniwyd bod y Tîm Rheoli Digwyddiadau yn cyfarfod bob dydd Mawrth a dydd Iau ar hyn o bryd i adolygu'r sefyllfa, ac Uwch Grŵp Arweinyddiaeth sy'n cynnwys Arweinwyr a Phrif Weithredwyr o Gyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a BIP CaF yn cyfarfod bob dydd Mercher.<br><br>Esboniodd Paul Orders y bydd y Grŵp Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a Diogelu yn cael ei ddisodli dros dro gan grŵp gweithredol ymateb Covid-19 wythnosol gyda rhan o'r agenda wedi'i neilltuo ar gyfer diogelu unwaith y mis.<br><br>Rhoddwyd cyfle i bob sefydliad roi'r wybodaeth ddiweddaraf am eu hymateb i'r cyfyngiadau a gyflwynwyd yn ddiweddar. Mae'r materion allweddol a amlygwyd yn cynnwys:<br><br>• Rheoli canol y ddinas yn ystod y cau 10pm gorfodol o’r safleoedd trwyddedig.<br>• Mae nifer yr achosion o dorri rheoliadau COVID-19 yn cynyddu, gydag ardaloedd myfyrwyr yn fannau poeth penodol.<br>• Mae sefydliadau'r Trydydd Sector yn canolbwyntio ar sicrhau bod gwybodaeth o ffynonellau credadwy yn cael ei lledaenu mewn Saesneg clir.<br>• Cytunwyd ar estyniad ar gyfer defnyddio Ysbyty Calon y Ddraig ac mae trefniadau ar waith i gynyddu capasiti mewn lleoliadau sy'n agos at gyfleusterau iechyd sy'n bodoli eisoes.<br>• Mae BIP CaF a Chyngor Caerdydd yn canolbwyntio ar gadw unigolion oedrannus allan o'r ysbyty lle y bo'n bosibl, a sicrhau eu bod yn cael eu rhyddhau'n gyflym unwaith y gall pobl ddychwelyd adref yn ddiogel.<br>• Mae BIP CaF a Chyngor Caerdydd hefyd wedi gweithio'n agos gyda chartrefi preswyl ar gynllunio parhad | |

| Rhif. | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | **Cam Gweithredu**<br>• Sheila Hendrickson-Brown i geisio adborth gan gymuned y 3ydd Sector ar ddulliau negeseua cyfredol ac unrhyw ofynion ychwanegol | C3SC |
| 4. | **Adeiladau Uchel**<br><br>Rhoddodd Huw Jakeway friff cyfrinachol i'r BGC ar Adeiladau Preswyl Uchel yng Nghaerdydd.<br><br>**Cam Gweithredu**<br>Adeiladau Preswyl Uchel i'w ddwyn yn ôl fel eitem BGC yn y dyfodol | Ysgrifenyddiaeth |
| 5. | **Diweddariad Diogelwch Cymunedol**<br><br>Rhoddodd Siân Sanders ddiweddariad gan y Bwrdd Arwain Diogelwch Cymunedol.<br><br>Cafwyd trafodaeth ar yr angen i symleiddio'r llif gwybodaeth mewn perthynas â threfniadau diogelwch cymunedol a threfniadau llywodraethu diogelu.<br><br>**Adolygiadau Dynladdiad Domestig**<br><br>Rhoddodd Siân Sanders drosolwg o'r broses y mae'r ADDau wedi mynd drwyddi hyd yma.<br><br>Oherwydd materion yn ymwneud â dosbarthu adroddiadau'r ADDau i aelodau'r BGC, ni ellid llofnodi'r ADDau yn y cyfarfod hwn.<br><br>**Cam Gweithredu**<br>• ADDau i'w dosbarthu i'r Bwrdd ac aelodau'r BGC i gadarnhau cymeradwyaeth drwy e-bost, cyn i'r ADDau fynd i'r cam nesaf yn y broses.<br>• Cynlluniau Gweithredu'r ADDau i'w hystyried gan y BGC mewn cyfarfod yn y dyfodol | Ysgrifenyddiaeth<br><br>Ysgrifenyddiaeth |
| 6. | **Adroddiad Blynyddol y BGC a Chaerdydd yn Adroddiad 2020**<br><br>**Cam Gweithredu**<br>• Aelodau'r BGC i ystyried Adroddiad Blynyddol drafft 2019/20 a Chaerdydd yn 2020, a rhoi adborth i swyddogion ysgrifenyddol erbyn 15 Hydref. | Ysgrifenyddiaeth |
| 7. | **Unrhyw Fusnes Arall ac Edrych tua'r Dyfodol**<br><br>**Grant CNC** | |

<table>
<tr><th>Rhif.</th><th>Eitem Agenda</th><th></th></tr>
<tr><td></td><td>Rhoddodd Michael Evans drosolwg o brosiectau posibl i'w dyrannu i gyllid grant Cyfoeth Naturiol Cymru:<br>• Astudiaeth ddichonoldeb ar dir dros ben ar ystadau sy'n aelodau o'r BGC i nodi pa safleoedd a allai gefnogi gwell ardaloedd coetiroedd/bioamrywiaeth.<br>• Datblygu meithrinfeydd coed i ddarparu stoc o goed tarddiad lleol (gan leihau gwastraff plastig a chludiant).<br>• Prosiect i adeiladu ar astudiaeth iTree Caerdydd.<br>• Gweithredu waliau gwyrdd mewn adeiladau a safleoedd sy'n aelodau o'r BGC.<br><br>CYTUNWYD:<br>• CNC i barhau i weithio gyda Swyddogion y Cyngor a chynigion terfynol i'w cyflwyno.<br><br>Dinas sy’n Dda i Blant<br>Cam Gweithredu<br>• Aelodau'r BGC i gefnogi'r gwaith o gasglu gwybodaeth am brofiad bywyd plant a phobl ifanc yn ystod pandemig Covid-19. Lee Patterson i gysylltu ag Aelodau'r BGC.<br>• Susanne Scarlett, Lee Patterson a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Alun Michael i drafod profiadau pobl ifanc anodd eu cyrraedd.<br><br>Cyfleoedd Llywodraethwyr Ysgol<br>Cam Gweithredu<br>• Gwybodaeth am Gyfleoedd Llywodraethwyr Ysgol i'w rhannu gydag aelodau'r BGC i'w hyrwyddo'n fewnol.<br><br>Eitemau Arfaethedig ar gyfer y Dyfodol<br>• Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd<br>• Camddefnyddio Cyffuriau / Sylweddau<br>• Ymateb BGC Caerdydd i Argyfwng Hinsawdd<br>• Adeiladau Uchel<br>• Caerdydd sy'n Dda i Blant - Profiadau plant a phobl ifanc yn ystod COVID-19</td><td>Lee Patterson<br><br>Lee Patterson<br>Comisiynydd Heddlu a Throsedd Alun Michael<br><br>Ysgrifenyddiaeth<br><br>Ysgrifenyddiaeth</td></tr>
<tr><td></td><td>Dyddiadau’r cyfarfodydd nesaf:<br><br>BGC Caerdydd - 22 Hydref 2020<br>BGC Caerdydd - 1 Rhagfyr 2020</td><td></td></tr>
</table>